Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

| | |
|---|---|
| **Cyfarfod:** | **Bwrdd Plismona** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Gynadledda SCHTh** |
| **Dyddiad:** | **16 Hydref** |
| **Amser:** | **09:00 – 11:15** |

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | Dafydd Llywelyn, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh)<br>Carys Morgans, Pennaeth Staff, SCHTh (PS)<br>Beverley Peatling, Prif Swyddog Ariannol (PSA) |
| **Hefyd yn Bresennol:** | Y Dirprwy Brif Gwnstabl Darren Davies (DBG)<br>Edwin Harries, Cyfarwyddwr Cyllid (CC)<br>Claire Bryant, Ymgynghorydd Polisi a Sicrwydd (CB)<br>Jayne Butler, Swyddog Staff, HDP (JB)<br>Mair Harries (MH) |
| **Ymddiheuriadau:** | Y Prif Gwnstabl Mark Collins (PG) |

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 18/09/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **Diweddariad Ynghylch Cynnydd** |
| **PB 2340** | **Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 a ddilyswyd i ymddangos ar agenda'r BP ar gyfer 16 Hydref.** | **Yn parhau** |
| **PB 2341** | **Cyflwyno'r  Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2019/20 mewn cyfarfod o'r BP.** | **Yn parhau – I'w gyflwyno ar 20 Tachwedd** |
| **PB 2342** | **Rhoi datganiad safbwynt ar Wyliau Blynyddol yr Heddlu i SCHTh.** | **Rhyddhawyd** |
| **PB 2343** | **Diweddariad AD misol i roi mwy o gyd-destun mewn perthynas â niferoedd swyddogion, gan gynnwys niferoedd staff yr heddlu. Tueddiadau o gwmpas y gweithlu, rhagfynegiadau, hanesyddol, wedi'u halinio â chyllid.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2344** | **CHTh, y PSA, y PG a'r CC i drafod dewisiadau ar gyfer ariannu'r cynllun gadael gwirfoddol y tu allan i'r Bwrdd Plismona.** | **Cwblhawyd** |
| **PB 2345** | **SCHTh i ymateb mewn perthynas â'i benderfyniad ynglŷn â'r cynllun ailhyfforddi gyrwyr NDORS.** | **Yn parhau** |

| PENDERFYNIADAU'N CODI O GYFARFOD 18/09/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y cam gweithredu** | **Crynodeb o'r cam gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB T2 80** | | |

**2. Cofnodion Cyfarfodydd Blaenorol**

PB 2332 – *Yr Heddlu i roi Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio 2018/19 i SCHTh* – Dywedodd y DBG ei fod wedi gofyn am ddiweddariad ynghylch datblygiad y cynllun gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol yr Adran Gwasanaethau Pobl, Steve Cadenne. Nodwyd y byddai'r Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2019/20 ar gael i'r Bwrdd ei dderbyn yn hwyr fis Tachwedd 2018.

**Cam Gweithredu – Rhoi diweddariad ar y Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2018/19 gyda chyflwyniad gan yr adran AD yn y Bwrdd Plismona ar 23 Hydref 2018.**

**Cam Gweithredu – Cyflwyno'r Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 20 Tachwedd.**

PB 2334 – *Yr Heddlu i roi dyddiadau cyfarfodydd rhwng y PG a Catrin Evans, Cyfarwyddwr Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu, i SCHTh*– Yn dilyn sgwrs gyda chynrychiolydd o Swyddfa Annibynnol Cwynion yr Heddlu, gofynnodd y CHTh am gael bod yn bresennol mewn cyfarfodydd perfformiad rhwng yr Heddlu a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu.

**3. Diweddariad y Prif Gwnstabl**

**Diweddariadau Gweithredol**

Rhoddodd y DBG wybod i'r Bwrdd am nifer o ddigwyddiadau, gan gynnwys 5 ymosodiad ar swyddogion heddlu ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd Plismona. Hefyd, rhoddodd wybod i'r Bwrdd y byddai cwest mewn perthynas â'r digwyddiad yn Llangamarch, Powys, fis Hydref 2017 yn cychwyn ar 22 Hydref 2018.

Rhoddodd y DBG wybod i'r Bwrdd am waith rhagweithiol parhaus gan swyddogion ar sawl ymgyrch, gan gynnwys Ulysses, ymgyrch gyffuriau. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ffordd orau o roi gwybod i'r cyhoedd am straeon newyddion da sy'n deillio o'r fath ymgyrchoedd. Trafododd y CHTh a'r DBG gylchlythyr misol y gellir ei anfon at gynghorwyr o bob sir sy'n cynnwys gwybodaeth am waith da parhaus gan HDP.

Diweddarodd y DBG y Bwrdd am waith parhaus yn dilyn llifogydd yn yr ardal heddlu, yn arbennig tref Caerfyrddin. Canmolodd y DBG waith PC 59 Peter

Williams yn ystod digwyddiad angheuol yng Nghwmduad lle'r achubwyd defnyddiwr y ffyrdd o'r afon. Trafododd y Bwrdd y galw mawr ar yr Heddlu yn ystod y llifogydd, gyda'r CHTh yn holi am yr elfen argyfyngau sifil a'r posibilrwydd o adfer costau drwy Lywodraeth Cymru.

**Cam Gweithredu – SCHTh i ddrafftio llythyr gan y CHTh i'r Prif Weinidog a Gweinidog Cabinet Cymru yn tynnu sylw at ymdrechion a gwaith da HDP, partneriaid a staff gweithredol yn ystod y llifogydd.**

Rhoddodd y DBG wybod i'r Bwrdd am gyllid sydd ar gael yn awr gan y Swyddfa Gartref ar gyfer cydlyniant heddlu mewn perthynas ag Ymgyrch Amos (gadael yr UE). Trafodwyd cynnig ar y cyd ar draws y 4 heddlu yng Nghymru ar gyfer rhannu arolygydd/prif arolygydd rhwng Gogledd Cymru a Dyfed-Powys, a De Cymru a Gwent.

**Diweddariadau Sefydliadol**

Hysbysodd y DBG y Bwrdd y byddai Wendy Williams, Arolygydd Heddluoedd Ei Mawrhydi, yn ymweld â'r Heddlu ddydd Iau 18 Hydref ar gyfer y sesiwn wybodaeth strategol a fyddai'n gweld cychwyn arolygu'r heddlu. Dywedodd y DBG fod arolwg staff wedi cau yn ddiweddar, a bod 60% o'r gweithlu wedi ymateb iddo. Mae hyn yn well o lawer na'r nifer sydd wedi cwblhau arolygon staff blaenorol. Mae'r wybodaeth yn cael ei dadansoddi ar hyn o bryd, a bydd canfyddiadau'n cael eu cyflwyno maes o law.

**4. Diweddariad CHTh**

**Lleol**

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ynglŷn â'i ymrwymiadau lleol, gan gynnwys ymweliad â Chlwb Rotari Crucywel, cyfarfod Grŵp Plismona Cymru Gyfan yn Llandrindod, a digwyddiad Mis Hanes Pobl Dduon ym Mhrifysgol Aberystwyth a ariannwyd gan SCHTh, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.

**Cenedlaethol**

Diweddarodd y CHTh y Bwrdd ar ei ymrwymiadau cenedlaethol, gan gynnwys cyfarfod gyda Stephen Carr (Llywodraeth Cymru). Ar hyn o bryd, mae swydd y Bnr Carr yn cael ei hariannu ar y cyd rhwng y pedwar heddlu yng Nghymru ac asiantaeth llywodraeth leol Llywodraeth Cymru er mwyn adfywio gwaith diogelwch cymunedol mewn partneriaeth â Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu yng Nghymru. Awgrymodd y CHTh y gallai'r swydd a chyfarfodydd dilynol arwain at berthynas fwy ystyrlon gyda Llywodraeth Cymru.

**5. Pwnc y Mis: Y Defnydd o Rym (Claire Bryant)**

Cyflwynodd CB yr adroddiad, gan dynnu sylw at ganfyddiadau allweddol. Diolchodd CB i holl swyddogion ac aelodau staff HDP a oedd wedi cyfrannu at yr adolygiad, gyda'r CHTh hefyd yn pwysleisio cymorth allweddol yr Uwch-arolygydd Craig Templeton. Er na ddaethpwyd o hyd i unrhyw feysydd pryder

arwyddocaol yn yr adroddiad, nododd CB ddiffygion o ran cofnodi a goruchwylio'r defnydd o rym gan swyddogion, a arweiniodd at SCHTh yn methu â dod i gasgliad pendant fod grym yn cael ei ddefnyddio'n gyson, yn anhepgorol ac yn gymesur. Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â chofnodi a goruchwylio, a oedd yn ymddangos fel problem gyffredin ar draws systemau eraill. Mynegodd y DBG ei rwystredigaeth fod hwn dal yn faes sy'n destun pryder er waetha'r ffaith bod swyddogion wedi cael eu hatgoffa droeon am y gofynion. Pwysleisiodd y CHTh ei awydd i ddatblygu darnau o waith tebyg ar gyfer SCHTh er mwyn cefnogi'r Heddlu mewn modd ystyrlon. Byddai ymarfer craffu dwys nesaf SCHTh yn cychwyn fis Tachwedd 2018, a byddai'n canolbwyntio ar y ffordd mae'r heddlu'n mynd i'r afael â'r defnydd anghyfreithlon o gyffuriau.

**Cam Gweithredu: Yr Heddlu i ymateb gyda'u gweithredoedd arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn yr adroddiad craffu dwys ar y defnydd o rym erbyn 30 Hydref.**

## 6. Eitemau Sefydlog

### a) Rheoli Risg

Roedd y CHTh yn falch bod y peryglon yn derbyn sylw a bod diweddariadau'n cael eu rhoi'n rheolaidd mewn cyfarfodydd Bwrdd Plismona, fodd bynnag, mynegodd bryder fod perygl o gwmpas cofnodi data trosedd yn cael ei ystyried yn rhy optimistaidd gan HDP.

Cafwyd trafodaeth ynghylch cadernid yn unol â materion pensiwn. Dywedodd y PSA y byddai'r rhain yn cael eu trafod yn fanylach mewn cyfarfod o'r Cyd-fwrdd Asedau'r wythnos nesaf. Cafwyd trafodaeth fer mewn perthynas â gadael yr UE, er, teimlwyd nad oedd modd gwneud paratoadau penodol gan fod gormod o aneglurder o ran y sefyllfa ar hyn o bryd. Cytunodd y Bwrdd y dylid ystyried gosod gadael yr UE ar Gofrestr Risg yr Heddlu.

Cafwyd trafodaeth mewn perthynas â'r Adroddiad Eithriad, gyda'r Bwrdd yn cytuno bod angen adolygu'r perygl o ran cyllid oherwydd amgylchiadau pensiynau.

### b) Toriadau Data

Ni chyflwynwyd unrhyw doriadau data i'r Bwrdd Plismona.

## 7. Materion i'w trafod

### a) Ymgynghoriad ynghylch Model Ariannu Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu

Cyflwynodd y CC adroddiad esboniadol a nododd fod galwadau HDP am wasanaeth hofrennydd wedi cynyddu o 69 i 127, gan arwain at gynnydd mewn cost o £118,000.

Cafwyd trafodaeth ynghylch pa un o'r saith model ariannu a awgrymwyd gan Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu fyddai'n well gan HDP ei gefnogi. Trafododd y Bwrdd fanteision ac anfanteision dewis model ariannu a oedd yn cynnwys galwadau gweithredol am wasanaeth, a modelau safonol sy'n cosbi heddluoedd am or-ddefnydd.

Trafododd y Bwrdd safbwyntiau a fynegwyd mewn cyfarfod cenedlaethol o Gymdeithas Prif Weithredwyr Plismona a Throseddu yr oedd y PSA wedi mynd iddo a oedd wedi cwestiynu'r gofyniad strategol i Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu godi trefniadau lleol amgen a defnyddio galluoedd eraill, gan gynnwys dronau. Awgrymodd y DBG fod rhai heddluoedd yn ystyried eu sefyllfaoedd a'u dewisiadau fel rhan o'r ystyriaethau ar gyfer eu Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Symudodd y Bwrdd ymlaen i siarad am waith amrywiol ar y cyd, a nodwyd fod trafodaethau diweddar mewn perthynas â rheolaeth ariannol o'r Cyd-uned Arfau Saethu wedi tynnu sylw at nifer o broblemau â'r model prisio cyfredol. Atgyfnerthwyd angen ar gyfer ymagwedd symlach a oedd yn osgoi biwrocratiaeth, ac ar yr un pryd, yn cydnabod yr angen i wahaniaethu rhwng gweithgarwch arfau saethu digwyddiadau arbennig a 'busnes fel arfer'.

Cyflwynwyd papur yng Ngrŵp Plismona Cymru Gyfan yn awgrymu cynnydd o £1,000,000 ar gyfer yr Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol /TARIAN ar draws yr heddluoedd o ganlyniad i golli arian grant trawsnewid, costau TGCh a nifer o bwysau eraill. Nodwyd fod Matt Jukes, Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, wedi gofyn am i waith pellach gael ei gyflawni er mwyn ystyried dewisiadau.

Gofynnodd y CHTh am gatalog o arian a ganiatawyd gan y gronfa drawsnewidiol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, gan gynnwys pa heddluoedd dderbyniodd grantiau, faint oedd y grantiau a beth oedd y canlyniadau. Awgrymodd y DBG a'r CHTh y byddai rhestr fewnol ar gyfer yr heddlu o holl gyfraniadau HDP tuag at gydweithio a grwpiau/cyrff cenedlaethol yn fuddiol.

**Cam Gweithredu: Codi'r mater o gydweithio mewn cyfarfod rhwng Tîm Prif Weithredwyr SCHTh ac ASau Cymru ar 4 Rhagfyr.**

**Cam Gweithredu: Anfon ymatebion ar wahân gan SCHTh a HDP at Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.**

**b) Pwyllgor Craffu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Powys**

Trefnwyd bod yr eitem hwn ar agenda'r wythnos ganlynol.

**c) Digwyddiad Troseddau Gwledig ar 8 Tachwedd**

Cydnabu'r DBG y digwyddiad gan ddweud bod yr Heddlu eisoes wedi cael gwybod ac y byddai'r Uwch-arolygydd Robyn Mason yn arwain.

| CRYNODEB O'R CAMAU GWEITHREDU O GYFARFOD 16/10/2018 | | |
|---|---|---|
| **Rhif y Cam Gweithredu** | **Crynodeb o'r Cam Gweithredu** | **I'w symud yn ei flaen gan** |
| **PB 2346** | **Rhoi diweddariad ar y Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2018/19 gyda chyflwyniad gan yr adran AD yn y Bwrdd Plismona ar 23 Hydref 2018.** | **Yr Heddlu** |
| **PB 2347** | **Cyflwyno'r Cynllun Hyfforddi Wedi'i Gostio ar gyfer 2019/20 yng nghyfarfod y Bwrdd Plismona ar 20 Tachwedd.** | **Yr Heddlu** |
| **PB 2348** | **SCHTh i ddrafftio llythyr gan y CHTh i'r Prif Weinidog a Gweinidog Cabinet Cymru yn tynnu sylw at ymdrechion a gwaith da HDP, partneriaid a staff gweithredol yn ystod y llifogydd.** | **SCHTh** |
| **PB 2349** | **Yr Heddlu i ymateb gyda'u gweithredoedd arfaethedig ar gyfer mynd i'r afael â'r argymhellion o fewn yr adroddiad craffu dwys ar y defnydd o rym erbyn 30 Hydref.** | **Yr Heddlu** |
| **PB 2350** | **Codi'r mater o gydweithio mewn cyfarfod rhwng Tîm Prif Weithredwyr SCHTh ac ASau Cymru ar 4 Rhagfyr.** | **CHTh/PS** |
| **PB 2351** | **Anfon ymatebion ar wahân gan SCHTh a HDP at Wasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu.** | **CC/PSA** |